Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 08.06.2021

## COVID-19: Symud yn raddol i Lefel Rhybudd 1

Mae Cymru wedi dechrau symud yn raddol i Lefel Rhybudd 1 ar ddydd Llun, 7 Mehefin 2021. Mae crynodeb o'r hyn sy'n rhaid i chi ei wneud a'r hyn sydd ar agor o 7 Mehefin 2021 ar gael yma:

https://llyw.cymru/cyfyngiadau-o-7-mehefin-2021-crynodeb

Mae canllawiau ar sut gallwch gadw'n ddiogel a pha reolau sydd yn eu lle i ddiogelu pobl yn ystod y cyfnod o symud o Lefel Rhybudd 2 i Lefel Rhybudd 1 ar gael yma:

https://llyw.cymru/cyfyngiadau-o-7-mehefin-2021-cwestiynau-cyffredin

## COVID-19: Byddwch yn wyliadwrus a chydymffurfiwch

Mae tîm Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd yn parhau i ymweld â busnesau i roi cyngor a sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu dilyn. Adborth

hanfodol ar gyfer manwerthu a lletygarwch yw pwysigrwydd sicrhau bod staff yn gwisgo masgiau gwyneb bob amser.

Yn ogystal, ar gyfer lletygarwch, mae'n hanfodol bwysig bod manylion olrhain cyswllt yn cael eu casglu'n llawn. Mae'n ofynnol i bob busnes lletygarwch – gan gynnwys tafarndai, bariau, caffis a bwytai – gasglu'r manylion (enw, rhif ffôn a chofnod o ddyddiad ac amser cyrraedd pawb dros 18 oed) ar gyfer yr holl staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr a chadw'r wybodaeth hon mewn lle diogel am 21 diwrnod. Nid yw arddangos cod QR App y GIG ar ei ben ei hun yn cydymffurfio â'r rheolau.

Mae canllawiau manwl ar gael ar gyfer y ddau sector:

- Manwerthu

https://llyw.cymru/manwerthwyr-camau-blaenoriaeth-html

- Twristiaeth a Lletygarwch

https://llyw.cymru/diogelu-cymru-canllawiau-i-dwristiaeth-a-lletygarwch-html

# COVID-19: Canllawiau UKHospitality wedi eu diweddaru

Mae canllawiau UKHospitality Cymru wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau o 7 Mehefin 2021. Am y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i:

https://www.ukhospitality.org.uk/page/walesguidance

# COVID-19: Mae'r amrywiolyn Delta yng Ngwynedd

Gydag achosion wedi'u cadarnhau o'r amrywiolyn Delta o Covid-19 yn ardal Porthmadog, mae'r trigolion lleol sy'n datblygu unrhyw symptomau yn cael eu hannog i gael prawf cyn gynted â phosib. I weld datganiad i'r wasg Cyngor Gwynedd, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd03Meh2021

# COVID-19: Cymorth ariannol Cronfa Cadernid Economaidd

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn darparu cefnogaeth pellach i'r busnesau hynny sydd wedi/sydd yn/a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol i raddau sylweddol gan y cyfyngiadau parhaus mewn ymateb i COVID-19.

Gall busnesau sydd â throsiant cyn-COVID o £85,000+ wneud cais yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau estynedig o 5:00pm ar 14 Mehefin 2021.

Gall busnesau sydd â throsiant cyn-COVID o dan £85,000 wneud cais trwy Gyngor Gwynedd tan 5:00 pm ar 31 Mehefin 2021.

I wirio'ch cymhwysedd a chael eich cyfeirio at y ffurflen gywir, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

# ARIANNU: Cronfa Sgrin Fyd-eang y DU – Datblygu Busnes Rhyngwladol

Gall busnesau yn y DU sy'n darparu cynnwys sgrin megis ffilmiau, teledu, animeiddio a gemau fideo naratif rhyngweithiol rŵan wneud cais am gefnogaeth i gynyddu eu gweithgareddau rhyngwladol. I gael mwy o wybodaeth am y gronfa yma, fydd yn cau ar 16 Gorffennaf 2021, ewch i:

https://bit.ly/3zaPZ92

# DYSGU: Gweminarau Cyflymu Cymru i Fusnesau/Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau wedi ymuno â Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ar gyfer cyflwyno dwy weminar, un yn canolbwyntio ar werthu ar-lein ac un ar weithio o bell heb straen.

- Gweminar CCIF/FSB 'Gwerthu ar-lein yn y DU a thramor': dechrau 18 Mehefin, 9:30am – 11:30am

I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3v2Nhzc

- Gweithio'n Gallach, Gweithio'n Fwy Diogel – heb straen: dechrau 21 Mehefin 2021, 11:00am – 1:00pm

I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3wfv0zO

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru